STARTING UP

Elusennau sydd wedi'u Hesgusodi

Ebrill 2008

Y Comisiwn Elusennau

Y Comisiwn Elusennau yw rheolydd annibynnol elusennau yng Nghymru a Lloegr. Mae'n ceisio rheoleiddio elusennau yng Nghymru a Lloegr yn y dull gorau posib er mwyn cynyddu effeithiolrwydd elusennau a magu hyder a ffydd y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o elusennau gofrestru gyda'r Comisiwn, ond nid oes rhaid i rai mathau o elusennau gofrestru. Mae rhyw 190,000 o elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fframwaith yn wahanol yn yr Alban, ac nid yw'r Comisiwn yn rheoleiddio elusennau yn yr Alban.

Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth helaeth o gyngor a chanllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr, ac yn aml iawn gall helpu gyda phroblemau. Mae'n rhaid i elusennau cofrestredig sydd ag incwm blynyddol neu wariant o fwy na £10,000 ddarparu gwybodaeth a chyfrifon blynyddol i'r Comisiwn. Mae pwerau eang gan y Comisiwn i ymyrryd ym musnes elusen pan fydd pethau wedi mynd o'i le.

Fe welwch fwy o wybodaeth am y Comisiwn ynghyd ag amrywiaeth o ganllawiau i elusennau ar ein gwefan www.charitycommission.gov.uk, neu drwy gysylltu â'r Comisiwn Elusennau Uniongyrchol:

Ffôn: **0845 300 0218**

Typetalk: **0845 300 0219**

Trwy'r post: **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Contents

Am beth mae'r canllaw hwn? 3

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir 3

Beth yw elusen sydd wedi'i hesgusodi? 4

Pam mae rhai elusennau wedi'u hesgusodi? 4

Oes rheolau neu ddarpariaethau statudol eraill ar gyfer elusennau sydd wedi'u hesgusodi? 5

Dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr 5

Sut mae Deddf 1993 yn effeithio ar elusennau sydd wedi'u hesgusodi? 6

- Cofrestru 6
- Newid enw 6
- Ymchwiliadau 7
- Cynlluniau 7
- Hyrwyddo Mesur 7
- Diogelu elusennau 7
- Cyfrifon banc segur 7
- Achosion elusennau 8
- Gwerthu a morgeisio tir 8

Cyfrifon, archwilio ac Adroddiadau Blynyddol 8

Gwahardd ymddiriedolwyr 9

Sut gallwn ni gynorthwyo elusennau sydd wedi'u hesgusodi? 9

- Cadarnhau statws elusennol 9
- Gwneud cais am Gynllun 10
- Ceidwad Swyddogol i Elusennau 10
- Cronfeydd buddsoddi cyffredin a chronfeydd adnau cyffredin 10

Rhoi awdurdod penodol i ymddiriedolwyr wneud pethau arbennig **10**

Taliadau ex gratia 11

Cyngor ffurfiol i ymddiriedolwyr **11**

Tystysgrifau ymgorffori 12

Buddiannau ariannol **12**

Cysylltu â ni **13**

Atodlen 2 i Ddeddf Elusennau 1993 **14**

Am beth mae'r canllaw hwn?

1. Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut y mae Deddf Elusennau 1993 yn effeithio ar elusennau sydd wedi'u hesgusodi a sut y gallwn eu cynorthwyo.

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir

2. Yn y canllaw hwn:

   Ystyr **Deddf 1993** yw Deddf Elusennau 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Elusennau 2006.

   Ystyr **Deddf 2006** yw Deddf Elusennau 2006. Er bod nifer o'r darpariaethau yn y Ddeddf hon mewn grym, ni ddisgwylir i'r rhai sy'n ymwneud ag elusennau sydd wedi'u hesgusodi ddod i rym cyn 2009. Cewch fwy o wybodaeth am y Ddeddf hon ar ein gwefan.

   Ystyr **gwaredu** yw gwerthu, prydlesu neu gyfnewid tir. Mae hyn yn cynnwys rhoi hawl tramwy neu hawliau eraill a'r holl drafodion eraill lle y bydd ymddiriedolwyr yn cael gwared â'u tir neu'n rhoi budd yn eu tir ac eithrio rhyddhau rhent-dâl ac unrhyw dir a werthir i warantu morgais.

   Ystyr **dogfen lywodraethol** yw unrhyw ddogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, sut y caiff ei gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, cyfansoddiad, memorandwm ac erthyglau cymdeithasu, ewyllys, trawsgludiad, Siarter Frenhinol, Cynllun y Comisiwn, neu'n ddogfen ffurfiol arall.

   Ystyr **tir** yw tir yng Nghymru a Lloegr gyda neu heb adeiladau ac mae'n cynnwys unrhyw ystad neu fudd mewn tir, megis prydles neu hawl tramwy.

   Ystyr **gwaddol parhaol** yw eiddo (tir, adeiladau, buddsoddiadau neu arian parod) na chaniateir i'r ymddiriedolwyr ei wario fel petai'n incwm.

   Ystyr **ymddiriedolwyr** yw **ymddiriedolwyr elusen**. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gellir eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau'r pwyllgor, yn llywodraethwyr neu'n gyfarwyddwyr, neu gellir cyfeirio atynt trwy ddefnyddio rhyw deitl arall.

Yr **adrannau** y cyfeirir atynt yw adrannau Deddf Elusennau 1993 oni nodir yn wahanol.

Defnyddir **rhaid** neu **angen** i gyfeirio at y camau y mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr, neu eu hasiantau neu eu gweithwyr, eu cymryd yn ôl y gyfraith.

Pan fyddwn yn defnyddio termau megis **dylai'r** ymddiriedolwyr neu **awgrymwn**, **argymhellwn** neu **cynghorwn,** cyfeiriwn at y camau y gallai'r ymddiriedolwyr, eu hasiantau neu eu gweithwyr eu cymryd, ac sy'n arfer da yn ein barn ni, ond nid ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Beth yw elusen sydd wedi'i hesgusodi?

3. At ddibenion Deddf 1993 elusen sydd wedi'i hesgusodi yw:
   - unrhyw sefydliad a ffurfiwyd at ddibenion elusennol sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 2 i Ddeddf 1993; neu
   - gronfa fuddsoddi gyffredin neu gronfa adnau gyffredin a sefydlwyd gan Gynllun y Comisiwn sydd yn caniatáu i elusennau sydd wedi'u hesgusodi yn unig i gymryd rhan (gweler paragraff 28).
4. Amlinellir Atodlen 2 Deddf 1993 yn llawn yn yr Atodiad i'r canllaw hwn (tudalennau 12-14). Os nad yw ymddiriedolwyr yn sicr a yw'r elusen wedi'i chynnwys o fewn paragraff (w) yr Atodlen honno, dylent geisio ein cyngor.

Pam mae rhai elusennau wedi'u hesgusodi?

5. Mae rhai elusennau wedi'u hesgusodi o'n goruchwyliaeth oherwydd ystyrir eu bod yn cael eu goruchwylio'n ddigonol gan ryw gorff neu awdurdod arall, neu eu bod yn atebol iddynt. Er nad ydynt yn ddarostyngedig i'n hawdurdod ni, mae'r canlynol yn berthnasol i elusen sydd wedi'i hesgusodi:
   - y rheolau cyfreithiol sy'n gymwys yn gyffredinol i elusennau; a
   - darpariaethau Deddf 1993 (oni bai eu bod wedi'u heithrio yn benodol).

Oes rheolau neu ddarpariaethau statudol eraill ar gyfer elusennau sydd wedi'u hesgusodi?

6. Oes. Mae rhai darpariaethau statudol ychwanegol sy'n gymwys i rai mathau o elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhai enghreifftiau.

Mathau o elusen sydd wedi'i hesgusodi, gyda darpariaethau statudol cyfatebol

Math o elusen sydd wedi'i hesgusodi	Darpariaethau statudol
Cwmnïau	Deddfau Cwmnïau a'r rheolau cyfreithiol sy'n berthnasol i gwmnïau.
Corfforaethau addysg uwch	Adran 125A Deddf Diwygio Addysg 1988, fel y'i mewnosodwyd gan adran 41 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998
Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus Cofrestredig	Deddfau Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus
Cymdeithasau Cyfeillgar Cofrestredig	Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 a Gorchymyn Cymdeithasau Cydfuddiannol 2001

Dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr

7. Mae gan ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi ddyletswyddau a chyfrifoldebau sydd yn gofyn llawn gymaint â rhai ymddiriedolwyr elusennau eraill. Er enghraifft, mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi wneud y canlynol:

- gweithredu yn rhesymol ac yn bwyllog wrth ddelio â phob mater sy'n ymwneud â'r elusen;

- gweithredu er lles gorau'r elusen bob amser;
- defnyddio incwm ac eiddo'r elusen at y dibenion a nodir yn y ddogfen lywodraethol yn unig;
- diogelu holl eiddo'r elusen;
- buddsoddi cronfeydd yr elusen dim ond yn unol â'u pwerau buddsoddi (fel y caniateir gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000, dogfen lywodraethol yr elusen, neu gyfuniad o'r ddau);
- adolygu effeithiolrwydd yr elusen yn rheolaidd.

8. Mae rhagor o wybodaeth am y mater hwn i'w gweld yn ein canllaw *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3).*

Sut mae Deddf 1993 yn effeithio ar elusennau sydd wedi'u hesgusodi?

9. Nid oes rhaid i elusennau sydd wedi'u hesgusodi gydymffurfio â nifer o ddarpariaethau Deddf 1993, ac ni allwn ddefnyddio ein pwerau goruchwylio o dan y Ddeddf honno mewn perthynas ag elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Mae safle cyfreithiol elusennau sydd wedi'u hesgusodi mewn perthynas â Deddf 1993 yn cael ei nodi ym mharagraffau 10-23.

Cofrestru

10. Nid yw'n ofynnol i elusen sydd wedi'i hesgusodi gofrestru gyda ni o dan adran 3 ac ni chaniateir i elusen sydd wedi'i hesgusodi gofrestru yn wirfoddol.

11. Mae cofrestriad gwirfoddol elusen sydd wedi'i hesgusodi cyn 1 Medi 1992 yn peidio â bod yn weithredol o'r dyddiad hwnnw. Mae'n dilyn na all elusen sydd wedi'i hesgusodi ddisgrifio ei hun fel elusen gofrestredig ac ni all ddefnyddio rhif cofrestredig (hyd yn oed os oedd un ganddi yn flaenorol).

Newid enw

12. Ni allwn orfodi elusen sydd wedi'i hesgusodi i newid ei henw o dan adran 6.

Ymchwiliadau

13. Ni allwn gynnal ymchwiliad i elusen sydd wedi'i hesgusodi o dan adran 8 neu ofyn am ddogfennau sydd dim ond yn berthnasol i elusen sydd wedi'i hesgusodi o dan adran 9.

Cynlluniau

14. Gallwn sefydlu Cynllun sy'n newid ymddiriedolaethau elusen sydd wedi'i hesgusodi ar gais yr ymddiriedolwyr (gweler paragraff 26). Fodd bynnag, ni allwn sefydlu Cynllun o dan adran 16(6), os teimlwn fod ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi wedi gwrthod yn afresymol i wneud cais am un. Nid yw absenoldeb pŵer gorfodi o'r fath yn golygu bod ymddiriedolwyr wedi'u hesgusodi rhag eu dyletswydd gyffredinol i sicrhau bod ymddiriedolaethau eu helusen yn ddigonol er mwyn eu galluogi i'w gweinyddu'n effeithiol.

Hyrwyddo Mesur

15. Nid yw'n ofynnol i elusen sydd wedi'i hesgusodi gael caniatâd y Llys neu'r Comisiwn o dan adran 17(7) cyn gwario arian ar baratoi neu hyrwyddo Mesur yn y Senedd.

Diogelu elusennau

16. Ni allwn ddefnyddio ein pwerau o dan adrannau 18 ac 18A i weithredu er mwyn diogelu elusennau. Er enghraifft, ni allwn baratoi Gorchymyn trwy ein cynnig ein hunain i wahardd neu ddiswyddo ymddiriedolwr elusen sydd wedi'i hesgusodi.

Cyfrifon banc segur

17. Cyfrif banc segur yw cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a ddelir ar ran elusen ac ni ellir olrhain yr elusen honno mwyach na'u hymddiriedolwyr. Ni allwn roi cyfarwyddyd o dan adran 28 i drosglwyddo cyfrif banc segur elusen sydd wedi'i hesgusodi i elusen neu elusennau eraill.

Achosion elusennau

18. Nid oes angen ein hawdurdod o dan adran 33 cyn cychwyn achos mewn perthynas ag elusen sydd wedi'i hesgusodi yn y llysoedd.

Gwerthu a morgeisio tir

19. Nid yw'r cyfyngiadau ar werthu a morgeisio tir elusennau, a gynhwysir yn adrannau 36 a 38, yn berthnasol i elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Er hynny, mae'n rhaid i elusen sydd wedi'i hesgusodi gynnwys yn y ddogfennaeth sy'n ymwneud â gwerthu neu forgeisio rai datganiadau fel sy'n ofynnol gan adrannau 37 a 39. Dylai ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi geisio cyngor cyfreithiol ar y materion hyn. Mae mwy o wybodaeth ar y pwnc hwn i'w gweld yn ein canllaw *Gwerthiannau, prydlesi, trosglwyddiadau neu forgeisiau: Yr hyn y mae angen i ymddiriedolwyr wybod am waredu tir elusennau (CC28).*

Cyfrifon, archwilio ac Adroddiadau Blynyddol

20. Nid yw darpariaeth adrannau 41 i 45 sy'n ymwneud â chadw cofnodion cyfrifon, paratoi cyfriflenni blynyddol, archwiliad ariannol neu annibynnol blynyddol o'r cyfrifon a pharatoi Adroddiad Blynyddol yn gymwys i elusen sydd wedi'i hesgusodi.

21. Fodd bynnag, o dan adran 46 mae'n ofynnol i elusen sydd wedi'i hesgusodi wneud y canlynol:

- cadw llyfrau cyfrifon priodol;
- paratoi cyfriflenni olynol yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant sy'n berthnasol i gyfnod heb fod yn fwy na 15 mis a mantolen sy'n berthnasol i ddiwedd y cyfnod hwnnw (oni bai ei fod yn ofynnol gan neu o dan awdurdod unrhyw Ddeddf arall i baratoi cyfriflenni cyfnodol); a
- chadw'r llyfrau a'r cyfriflenni am o leiaf 6 mlynedd oni bai fod yr elusen yn dod i ben a rhoddir caniatâd ysgrifenedig y Comisiwn i'w dinistrio neu gael gwared arnynt mewn rhyw ffordd arall.

22. O dan adran 47(2), mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi gydymffurfio hefyd cyn pen 2 fis â chais ysgrifenedig gan unrhyw aelod o'r cyhoedd am gopi o gyfrifon diweddaraf yr elusen. Gallant godi tâl rhesymol am y costau a gafwyd wrth ddelio â'r cais.

Gwahardd ymddiriedolwyr

23. Mae darpariaethau adran 72 yn ymwneud â gwahardd ymddiriedolwyr yn berthnasol i bob elusen, gan gynnwys elusen sydd wedi'i hesgusodi. Mae Adran 72(4) yn rhoi'r pŵer i ni roi hepgoriad ar gyfer gwaharddiad o'r fath. Er hynny, ni allwn wneud Gorchymyn o dan adran 73(4)(a) i gyfarwyddo ymddiriedolwr elusen sydd wedi'i hesgusodi sydd wedi gweithredu tra y'i gwaherddir o dan adran 72 i ad-dalu unrhyw symiau a dderbyniodd gan yr elusen yn ystod cyfnod y gwaharddiad.

Sut gallwn ni gynorthwyo elusennau sydd wedi'u hesgusodi?

24. Gallwn gynorthwyo elusennau sydd wedi'u hesgusodi mewn sawl ffordd. Gallwn ddarparu gwybodaeth a chyngor, a defnyddio ein pwerau i wneud Cynlluniau a Gorchmynion ar gais yr ymddiriedolwyr. Rhoddir rhai enghreifftiau ym mharagraffau 25 i 34.

Cadarnhau statws elusennol

25. Weithiau bydd angen i elusen sydd wedi'i hesgusodi roi tystiolaeth ei bod yn 'elusen gydnabyddedig'. Mae hyn yn digwydd fel arfer pan fydd yr elusen yn ceisio manteisio ar y buddiannau ariannol y mae elusennau cofrestredig yn eu mwynhau (gweler paragraff 35). Nid oes unrhyw broses ffurfiol ar gyfer ardystio ei statws, yn wahanol i elusen gofrestredig a all ddyfynnu ei rhif cofrestredig. Efallai y byddwn yn barod i gadarnhau trwy lythyr y byddai'r sefydliad, ar ddyddiad y llythyr, wedi'i gofrestru fel elusen pe na fyddai'n elusen sydd wedi'i hesgusodi. Os yw ymddiriedolwyr yn teimlo eu bod angen cadarnhad o'r fath, dylent anfon cais atom yn esbonio'r rhesymau pam bod angen y cadarnhad gan amgáu copi o'r ddogfen lywodraethol/dogfennau llywodraethol. Gellir gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth bellach.

Gwneud cais am Gynllun

26. Gall ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi wneud cais i ni am Orchymyn o dan adran 26 neu Gynllun o dan adran 16 Deddf 1993. Gall y Gorchymyn neu'r Cynllun newid, diwygio neu (yn achos Cynllun) ddisodli dogfen lywodraethol yr elusen os nad oes unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer gwneud y newidiadau (ee, trwy offeryn statudol neu gan yr ymddiriedolwyr eu hunain). Mae ein canllaw Newid Dogfen Lywodraethol eich Elusen (CC36) yn rhoi mwy o wybodaeth.

Ceidwad Swyddogol i Elusennau

27. O dan adran 16, gallwn baratoi Gorchymyn i freinio tir y mae elusen sydd wedi'i hesgusodi yn berchen arno i'r Ceidwad Swyddogol i Elusennau. Disgrifir manteision gwneud hyn yn ein canllaw *Gwasanaeth Dal Tir y Ceidwad Swyddogol i Elusennau (CC13).*

Cronfeydd buddsoddi cyffredin a chronfeydd adnau cyffredin

28. Gall ymddiriedolwyr ddwy neu ragor o elusennau sydd wedi'u hesgusodi wneud cais i ni am Gynllun i sefydlu cronfa fuddsoddi gyffredin neu gronfa adnau gyffredin o dan adran 24 neu adran 25 Deddf 1993. Mae'r cronfeydd hyn yn gyfryngau buddsoddi sydd ar gael i elusennau yn unig. Mae pob cronfa yn elusen ei hun, ond os yw'r Cynllun sy'n ei sefydlu yn caniatáu i elusennau sydd wedi'u hesgusodi gymryd rhan yn unig, yna mae'r gronfa hefyd yn elusen sydd wedi'i hesgusodi ac nid oes modd iddi gofrestru.

Rhoi awdurdod penodol i ymddiriedolwyr wneud pethau arbennig

29. Efallai y bydd ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi yn dymuno gwneud rhywbeth a fyddai o fudd i'w helusen, ond nid oes ganddynt y pŵer i'w wneud o dan delerau'r ddogfen lywodraethol. Os nad yw hyn wedi'i rhagwahardd yn benodol gan Ddeddf Seneddol neu'r ddogfen lywodraethol, mae'n bosibl y gallwn awdurdodi'r ymddiriedolwyr i wneud yr hyn a ddymunant trwy Orchymyn a wneir o dan adran 26 Deddf 1993.

Taliadau ex gratia

30. Taliad ex gratia yw taliad y mae'r ymddiriedolwyr yn teimlo bod rheidrwydd moesol arnynt i'w wneud ond:

- nid oes gorfodaeth gyfreithiol arnynt i'w wneud;
- nid yw dogfen lywodraethol yr elusen yn eu hawdurdodi i'w wneud; neu
- ni allant gyfiawnhau ei fod er budd yr elusen.

31. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi sy'n dymuno gwneud taliad gwirfoddol yn yr amgylchiadau hyn wneud cais am ein caniatâd i wneud hynny. Mae'r un drefn yn gymwys os yw ymddiriedolwyr yn ystyried ildio hawliau i dderbyn eiddo y mae gan yr elusen hawl gyfreithiol iddo fel arall. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn ein canllaw *Taliadau Ex Gratia gan Elusennau (CC7).*

Cyngor ffurfiol i ymddiriedolwyr

32. O dan adran 29 Deddf 1993, gall ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi ysgrifennu atom am gyngor ffurfiol os nad ydynt yn siŵr a fyddent yn gweithredu'n briodol fel ymddiriedolwyr trwy weithredu mewn ffordd arbennig.

33. Ystyrir bod yr ymddiriedolwyr, trwy weithredu ar y cyngor hwnnw, wedi gweithredu yn unol â'u hymddiriedolaethau oni bai eu bod yn gwybod neu fod ganddynt achos rhesymol dros amau:

- bod y cyngor wedi'i roi heb wybodaeth am y ffeithiau hanfodol;
- bod ffeithiau hanfodol wedi newid ers y rhoddwyd y cyngor;
- cafwyd penderfyniad y Llysoedd ar y mater; neu
- mae achos i gael penderfyniad y Llysoedd ar y gweill.

Tystysgrifau ymgorffori

34. Os yw ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi yn gwneud cais i ni o dan adran 50 Deddf 1993 am dystysgrif ymgorffori'r ymddiriedolwyr fel corfforaeth gorfforedig, byddwn yn rhoi tystysgrif o'r fath oni bai ein bod o'r farn na fyddai ymgorffori er budd yr elusen. Am fanylion pellach gweler ein canllaw *Ymgorffori Ymddiriedolwyr Elusennau (CC43).*

Buddiannau ariannol

35. Mae gan elusennau sydd wedi'u hesgusodi yr union yr un hawl i fuddiannau ariannol ag elusennau cofrestredig. Mae hawl ganddynt gael:

- rhyddhad rhag treth incwm, treth gorfforaeth a threth enillion cyfalaf;
- eu heithrio rhag treth etifeddiaeth; a
- rhyddhad rhag trethi busnes neu annomestig.

36. Cewch wybodaeth bellach am fuddiannau treth gan Gyllid a Thollau EM. Eu cyfeiriad yw:

HMRC Charities
St John's House
Merton Road
Stanley Precinct
Bootle
Glannau Merswy L69 4EJ

Ffôn: 0845 3020 203

Ydy'r rheolaethau statudol ar gyfer codi arian yn effeithio ar elusennau sydd wedi'u hesgusodi?

37. Ydynt. Mae'r rheolaethau codi arian yn effeithio ar bob elusen, gan gynnwys elusennau sydd wedi'u hesgusodi. Rhoddir manylion pellach am y rheolaethau eu hunain a chyngor cyffredinol ar godi arian yn ein canllaw *Elusennau a Chodi Arian (CC20).*

Cysylltu â ni

38. Os yw ymddiriedolwyr elusen sydd wedi'i hesgusodi am gael cyngor gennym ar unrhyw fater sy'n effeithio ar eu helusen, gallant ysgrifennu atom neu siarad â staff y Comisiwn Elusennau Uniongyrchol ar 0845 300 0218.

39. Os ydynt yn ysgrifennu, dylai ymddiriedolwyr amgáu gyda'u llythyr gopi llawn o (bob) dogfen lywodraethol yr elusen (oni bai eu bod yn gwybod bod copi gennym eisoes) gan ddyfynnu unrhyw gyfeirnod a allai fod wedi cael ei ddefnyddio mewn gohebiaeth flaenorol.

40. Byddwn yn rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr a oes angen unrhyw wybodaeth bellach (ee, cyfrifon yr elusen) cyn y gellir ateb eu llythyr.

Atodlen 2 i Ddeddf Elusennau 1993

Mae'r sefydliadau canlynol, cyhyd ag y bônt yn elusennau, yn elusennau sydd wedi'u hesgusodi o fewn ystyr y Ddeddf hon, hynny yw -

(a) unrhyw sefydliad, pe na fyddai Deddf Elusennau 1960 wedi cael ei phasio, a fyddai wedi'i esgusodi o bwerau ac awdurdod y Comisiwn neu'r Gweinidog Addysg dan Ddeddfau Ymddiriedolaethau Elusennol 1853 i 1939 (ar wahân i unrhyw bŵer y Comisiwn neu'r Gweinidog i gymhwyso'r Deddfau hynny yn gyfan gwbl neu'n rhannol i elusennau a esgusodir fel arall) gan delerau unrhyw ddeddfiad sydd heb ei gynnwys yn y Deddfau hynny heblaw adran 9 Deddf Cofrestru Llefydd Addoli 1855; [1]

(b) prifysgolion Rhydychen, Caergrawnt, Llundain, Durham a Newcastle, colegau a neuaddau ym mhrifysgolion Rhydychen, Caergrawnt, Durham a Newcastle, Coleg Queen Mary and Westfield ym Mhrifysgol Llundain a cholegau Winchester ac Eton;

(c) unrhyw brifysgol, coleg y brifysgol, neu sefydliad sy'n gysylltiedig â phrifysgol neu goleg y brifysgol, y mae Ei Mawrhydi yn datgan trwy Orchymyn yng Nghyngor ei bod yn elusen sydd wedi'i hesgusodi at ddibenion y Ddeddf hon; [2]

(da) yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm;[3]

(f) Awdurdod Cymwysterau Cwricwlwm ac Asesu Cymru; [4]

(i) cwmni olynol i gorfforaeth addysg uwch (o fewn ystyr adran 129(5) Deddf Diwygio Addysg 1988) ar adeg pan fo sefydliad a weinyddir gan y cwmni yn cael ei ddynodi dros dro dan yr adran honno;

(k) Bwrdd Ymddiriedolwyr Amgueddfa Victoria ac Albert;

(l) Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Wyddoniaeth;

(m) Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Arfdai;

(n) Bwrdd Ymddiriedolwyr Gerddi Botanegol Brenhinol, Kew;

(o) Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol ar Lannau Merswy;

(p) ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig ac ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Byd Natur;

(q) Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Oriel Genedlaethol;

(r) Bwrdd Ymddiriedolwyr Oriel Tate;

(s) Bwrdd Ymddiriedolwyr yr Oriel Bortreadau Genedlaethol;

(t) Bwrdd Ymddiriedolwyr Casgliad Wallace;

(u) Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol;

(v) Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Forol Genedlaethol;

(w) unrhyw sefydliad sy'n cael ei weinyddu gan neu ar ran sefydliad a gynhwysir uchod ac a sefydlwyd at ddibenion cyffredinol, neu unrhyw ddiben arbennig neu mewn perthynas â'r sefydliad a enwir yn olaf; [5]

(x) Comisiwn yr Eglwys ac unrhyw sefydliad a weinyddir ganddo;

(y) unrhyw gymdeithas gofrestredig o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 ac unrhyw gymdeithas neu gangen gofrestredig o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974;

(z) Bwrdd Llywodraethwyr Amgueddfa Llundain;

(za) Bwrdd Llyfrgell Prydain;

(zb) Bwrdd y Gronfa Gymunedol; [6]

---

1 Mewn gwirionedd mae paragraff (a) yn cynnwys:

- prifysgolion Birmingham, Bryste, Exeter, Hull, Leeds, Caerlŷr, Lerpwl, Manceinion, Nottingham, Reading, Sheffield a Southampton;
- yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol;
- yr Amgueddfa Forol Genedlaethol;
- Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru ac unrhyw eiddo a freiniwyd ynddo neu a weinyddir ganddo;
- eiddo o fewn Mesur Buddsoddi Arian Eglwysig 1958.

2 Gweddill y prifysgolion sydd heb eu cwmpasu gan (a) a:

- sefydliadau sy'n gysylltiedig â Phrifysgolion Llundain, Manceinion a Chymru; a
- rhai ysgolion, colegau a sefydliadau meddygol a meddygol ôl-raddedig.

3 Mewnosodwyd gan Atodlen 19, paragraff 175 Deddf Addysg 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 1997.

4 Mewnosodwyd gan Atodlen 15, paragraff 5 Deddf Addysg 1993, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 1997.

5 Os nad yw'r ymddiriedolwyr yn sicr a yw eu helusen wedi'i chynnwys o fewn paragraff (w), dylent geisio cyngor y Comisiwn.

6 Mewnosodwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993.

DS Cafodd y paragraff gwreiddiol (d) (ysgolion a gynhelir â grant) ei ddiddymu gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cafodd y paragraffau gwreiddiol (e) (Cyngor y Cwricwlwm Cenedlaethol) ac (g) (Cynghorau Arholiadau ac Asesu Ysgolion) eu diddymu gan Ddeddf Addysg 1996.

Cafodd y paragraffau gwreiddiol (h) (Corfforaethau Addysg Uwch) a (j) (Corfforaethau Addysg Bellach) eu diddymu gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

Os cyfeirir at yr Ymddiriedolwyr; Bwrdd yr Ymddiriedolwyr; neu Fwrdd y Llywodraethwyr mae'r eithriad yn ymestyn i bob agwedd ar y sefydliadau gan gynnwys tir ac adeiladau'r sefydliad perthnasol.

Mae modd cyrchu'r cyhoeddiad hwn ar wefan y Comisiwn Elusennau hefyd: www.charitycommission.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2001. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i argraffu ar bapur sy'n dod o adnoddaucynaliadwy yn unig ac mae'n hollol rydd rhag clorin.

Cyflenwyd gan Linney Group
xxxxxx xx/20xx

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Comisiwn Elusennau

Ffôn: **0845 300 0218**

Typetalk: **0845 300 0219**

Trwy'r post: **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Elusennau sydd wedi'u Hesgusodi. Ebrill 2008 **CC23**